COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR POLISI A CHYLLID, CYNGOR TREF BAE COLWYN, A GYNHALIWYD PNAWN MERCHER, 28AIN MAWRTH 2018 AM 5.00 P.M. YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN

YN BRESENNOL: Y Maer, Y Cynghorydd J. Pearson, (Cadeirydd Dros Dro)
Cynghorwyr H. Fleet, C. Hughes, A. Kealey, A. Khan, T. Pearson, M. Pickard, P. Richards

SWYDDOGION: Mrs C. J. Earley, Clerc y Dref
Miss L. Austin, Gweinyddwraig Cynorthwyol

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Bob Barton

377/17 Penodi Cadeirydd:

Penderfynwyd, yn absenoldeb y Cadeirydd, y Cynghorydd H. Meredith, penodi'r Maer, y Cynghorydd J. Pearson, i fod yn Gadeirydd y Pwyllgor am y cyfarfod hwn, sef yr olaf yn y Flwyddyn Drefol bresennol.

Croesawyd y Cynghorydd Bob Barton i'r cyfarfod fel sylwebydd, a gofynnodd am ganiatâd gan y Cadeirydd i gael siarad ar eitemau 5(b)(ii) a 7(c) ar yr agenda.

378/17 Ymddiheuriadau am Absenoldeb:

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr H. Meredith (Cadeirydd), A. Mason, M. Jones a K. Swindon.

379/17 Datgan Cysylltiadau:

Atgoffwyd yr Aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu gysylltiadau sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Datganwyd y cysylltiadau canlynol:

- Cynghorydd T. Pearson, cysylltiad na fydd yn rhagfarnu yn eitem 17(b) - Cais am grant bach gan Radio Cymunedol Llandudno.
- Cynghorydd A. Kealey, cysylltiad na fydd yn rhagfarnu yn eitem 16(d) - Cynnig Lwfans Ward i Glwb Pêl-droed Bae Colwyn.

380/17 Cofnodion:

Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cywirdeb Cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 14eg Chwefror 2018.

381/17 Materion yn Codi o'r Cofnodion:

a) Cofnod 329/17(b) - Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR):

Hysbyswyd yr Aelodau gan y Clerc na fyddai'n gyfreithiol i benodi Aelod o'r Cyngor i fod yn swyddog Diogelu Data'r Cyngor ac roedd ar hyn o bryd yn ceisio amcan brisiau gan ddarparwyr eraill. Fe gyflwynir y rhain i gael eu hystyried yn y cyfarfod nesaf, ynghyd a pholisi diogelu drafft a chanfyddiadau'r archwiliad cychwynnol.

Penderfynwyd nodi bydd y Clerc yn cyflwyno amcan brisiau, polisi drafft a chanfyddiadau cychwynnol i'r cyfarfod ym mis Mai.

b) IPRW a Lwfansau Aelodau:

i. Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, copi o'r llythyr a ddosbarthwyd am Lwfansau Aelodau a dywedodd y bu, hyd yn hyn, 4 hawliad, 18 wedi ymatal (nifer ar lafar - ffurflenni i ddilyn) ag 1 heb ymateb. Am fod meddalwedd cyflogres HMRC presennol y Cyngor Tref yn ddigonol i ymdrin â'r nifer oedd eisiau hawlio'r Lwfans Aelodau, nid oedd angen ystyried unrhyw opsiynau eraill am y gyflogres yn y flwyddyn ariannol bresennol. Mae hyn ar y rhagdybiaeth y telir lwfansau yn Ebrill ar ddiwedd pob blwyddyn Drefol.

Penderfynwyd nodi'r atebion a dderbyniwyd a rhoi awdurdod i'r Clerc i ddefnyddio system cyflogres y Cyngor Tref i wneud y taliadau ar gyfer Blwyddyn Drefol 2017/18.

ii. Cyflwynodd y Clerc adroddiad terfynol IPRW 2018/19 i'w ystyried. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi penderfyniadau 44-53 ac ystyried y taliad(au) i uwch swyddi (penderfyniad 46) ag i'r Maer a'r Dirprwy Faer (penderfyniadau 52 a 53).

Trafodwyd yr argymhellion a gynhwyswyd yn adroddiad IPRW mewn perthynas â thaliad blynyddol o £500 i Gadeiryddion Pwyllgorau Polisi a Chyllid ag Amcanion Cyffredinol a Chynllunio, i gydnabod eu dyletswyddau penodol.

Penderfynwyd argymell bod penderfyniadau 44-53 yn cael eu mabwysiadu, i gynnwys taliad blynyddol o £500 i Gadeiryddion Pwyllgorau Polisi a Chyllid ag Amcanion Cyffredinol a Chynllunio, i ddibenion penderfyniad 46.

- Cyrhaeddodd y Cynghorydd T. Pearson yn y pwynt yma.

Cafwyd trafodaeth bellach am Benderfyniadau 52 a 53 a lefel y taliad cydnabyddiaeth i'r Maer a'r Dirprwy Faer. Oherwydd amlder a natur cyfarfodydd llawn y Cyngor, argymhellwyd gan y Clerc y dylid talu £750 i'r Maer (lwfans craidd o £500 + lwfans gwisg) a £500 i'r Dirprwy Faer (£250 lwfans craidd + £250 lwfans gwisg).

Penderfynwyd argymell taliad blynyddol o £750 i'r Maer a £500 i'r Dirprwy Faer, yn unol â Phenderfyniadau 52-53.

Fe benderfynwyd ymhellach i argymell gostwng Lwfans Dinesig y Maer i £2,000 y flwyddyn, er mwyn cynnwys yr elfen gwisg yn Lwfansau Cynghorwyr ac nid yn cael ei dalu allan o Lwfans Dinesig y Maer.

- Cyrhaeddodd y Cynghorydd Chris Hughes yn y pwynt yma.

382/17 <u>Cyllid:</u>

a) ***Penderfynwyd rhoi awdurdod am y taliadau a wnaed ar ran y Cyngor am y cyfnod 1/2/18 hyd at 16/3/18 fel y manylir arnynt yn Atodiad 'A' sydd gyda hwn.***

b. ***Penderfynwyd derbyn a nodi cyfriflenni cysoni'r banc fel yr oedd ar 28/2/2018 a rhoi awdurdod i'r Clerc a'r Cadeirydd i'w gwirio a'u llofnodi.***

383/17 <u>Llywodraeth Cymru / Y Cynulliad Cenedlaethol:</u>

Cyflwynodd y Clerc yr ohebiaeth ganlynol i gael ei ystyried:

a) Datganiad ysgrifenedig - Cynllun Gwaith Polisi Treth 2018.

Penderfynwyd derbyn a nodi Cynllun Gwaith Polisi Treth 2018.

b) Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflwyno ar gyfer y Bobl - Ymgynghoriad ar y papur gwyrdd.

Penderfynwyd gohirio paratoi ymateb drafft y Cyngor Tref i'r ymgynghoriad tan y cyfarfod nesaf sydd i'w gynnal ar 23^{ain} Mai. Gofynwyd i'r Aelodau cadw / darllen eu copi hwy o'r ddogfen ymgynghori cyn y cyfarfod nesaf.

c) Mesur Awtistiaeth (Cymru) - drafft:

Cyflwynodd y Cynghorydd Bob Barton adroddiad ysgrifenedig manwl ar y Papur Ymgynghori ar y Mesur Awtistiaeth (Cymru) drafft. Gofynnodd i unrhyw un oedd yn anghytuno ag unrhyw un o'r sylwadau, adael i'r Clerc wybod erbyn dydd Mercher 4^{ydd} Ebrill fel y gellir eu hychwanegu at yr ymateb.

Diolchodd y Cynghorydd P. Richards i'r Cynghorydd Barton am ei adroddiad cynhwysfawr.

Penderfynwyd rhoi awdurdod dirprwyol i'r Clerc i ymateb yn unol ag adroddiad y Cynghorydd Barton ar ôl dydd Mercher 4^{ydd} Ebrill.

ch) Galwad am Dystiolaeth gan Lywodraeth y DU - Gwastraff plastig a ddefnyddir Unwaith:

Penderfynwyd derbyn a nodi'r galwad am dystiolaeth.

d) Cymorth gan Lywodraeth Cymru i Drefniadau ar y Cyd:

Penderfynwyd rhoi awdurdod dirprwyol i'r Clerc a'r Maer i gyflwyno cais, os bydd Cynghorau Cymuned Mochdre a Llysfaen yn datgan digon o ddiddordeb i weithio ar y cyd mewn ymarferiad i baratoi Cynllun Cynefin.

384/17 <u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):</u>

Cyflwynodd y Clerc yr ohebiaeth ganlynol i gael ei ystyried:

a) Dosbarthiadau Adnoddau Dysgu Ysgol Sŵn y Don:

Cyflwynodd y Clerc copi o'r ddogfen ymgynghori statudol.

Penderfynwyd derbyn a nodi'r ddogfen ymgynghori.

b) Prosiect Canllawiau Bryn Euryn:

Cyflwynodd y Clerc adroddiad am gwblhau'r prosiect (cronfa grantiau mawr)

Penderfynwyd derbyn a nodi'r adroddiad.

c) Cyllido Mannau Ardderchog gan Gronfa Treftadaeth y Loteri (CTL):

Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar ar brosiect IMAGINE Bae Colwyn. Cafodd y cais am gyllid o £400,000 ei gymeradwyo yn ddiweddar gan Gronfa Treftadaeth y Loteri - Cynllun Mannau Ardderchog (gydag arian cyfatebol £51,000 dros y 2 flynedd nesaf gan y Cyngor Tref, BID Colwyn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - £17,000 yr un). Bydd y gwaith yn dechrau ar unwaith i baratoi ar gyfer ei weithredu; y cam cyntaf bydd cyflogi swyddog gyda chefndir yn y Celfyddydau / Treftadaeth i lywio'r prosiect. Bydd y Clerc yn adrodd yn ol yn rheolaidd am unrhyw gyfarfodydd caiff wahoddiad i fynychu. Fe nodwyd bydd datganiad i'r wasg yn cael ei gyhoeddi yfory, i roi cyhoeddusrwydd i'r cyllid a bod yna gwaharddiad i'r wasg tan hanner nos heno.

Penderfynwyd derbyn a nodi adroddiad y Clerc.

ch) Bwrdd Rheoli Strategaeth Byw yn y Bae:

Cyflwynodd y Cynghorwyr P. Richards a C. Hughes adroddiad byr ar lafar, yn cadarnhau bod Rob Dix wedi paratoi drafft o fersiwn terfynol Cynllun Buddsoddi Cyngor Tref Bae Colwyn a chaiff ei ddosbarthu am ymgynghoriad yn y man.

Penderfynwyd gwahodd Rob Dix i fod yn bresennol i gyflwyno'r fersiwn terfynol i'r Cyngor Tref ym Mehefin.

d) Ymholiad am gyllid Cadwraeth:

Cyflwynodd y Clerc ymholiad e-bost i'w ystyried gan Swyddog Datblygu Amgueddfeydd CBSC, yn gofyn i'r Cyngor Tref ystyried cyfrannu tuag at warchod darlun.

Penderfynwyd awgrymu bod yr ymgeisydd yn cyflwyno cais am grant bach.

385/17 <u>Swyddfa Archwilio Cymru:</u>

Cyflwynodd y Clerc arolwg cenedlaethol o gynghorau tref a chymuned i'w ystyried. Mae angen ymateb erbyn 6ed Ebrill 2018.

Penderfynwyd rhoi awdurdod i'r Clerc i ymateb i'r arolwg cenedlaethol erbyn 6ed Ebrill.

386/17 <u>Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau:</u>

Rhoddodd y Cynghorydd P. Richards adroddiad byr ar lafar am gyfarfod diweddar Ymddiriedolaeth Adeiladau Cymunedau. Fe nodwyd bod y prosiect deg mlynedd yn parhau i fod yn y cam ymgynghori, ond bod y grŵp yn ystyried trefnu gŵyl gerddorol yn hwyr ym mis Medi / dechrau mis Hydref

387/17 <u>Biliau Gwasanaethau Cyhoeddus:</u>

a) Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, gohebiaeth oddi wrth XLN yn dweud y bu ychydig o gynnydd yn nhaliadau misol y ffôn a band llydan.

Penderfynwyd nodi'r cynnydd yn nhaliadau misol y ffôn / band llydan.

b) Cyflwynodd y Clerc cynnig i'w ystyried gan LSI i gynorthwyo i geisio cytundeb nwy / trydan newydd (ar gyfer holl safle Rhiw Road) o fis Medi 2018.

Penderfynwyd rhoi awdurdod i'r Clerc i geisio amcan brisiau ynni gan LSI.

388/17 <u>Pwyllgor Rheoli Theatr Colwyn:</u>

Awgrymodd y Cynghorydd C. Hughes, Cadeirydd Pwyllgor Rheoli Theatr Colwyn, y dylid gwahodd Paul Sampson i roi cyflwyniad i gyfarfod y Cyngor yn y dyfodol am ei swyddogaeth fel curadur / ffotograffydd.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc gwahodd Paul Sampson i gyfarfod yn y dyfodol.

- Cyrhaeddodd y Cynghorydd H. Fleet yn y pwynt yma

389/17 <u>Un Llais Cymru (ULlC):</u>

Cyfeiriodd y Clerc at benderfyniad blwyddyn ddiwethaf i beidio ag ymuno ag Un Llais Cymru ac yn hytrach i dderbyn cyngor gan Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol ac / neu aelodau o dîm y gyfraith CBSC fel bo'r angen. Fe awgrymwyd dylai ULlC ystyried cynnig aelodaeth dwy haen - yn cynnig naill ai gwasanaeth cyngor / cefnogaeth gyfreithiol ai beidio. Byddai'r Cyngor yn gallu elwa trwy fod yn aelod 'rhwydwaith' gan dderbyn taflenni newyddion, rhannu ymarferiadau gorau, hyfforddiant a chyfarfodydd pwyllgor ardal, ond heb y gost o wasanaeth cynghori drudfawr nad yw'n cael ei ddefnyddio'n aml.

Penderfynwyd argymell bod y Clerc i gysylltu ag ULlC i ddweud wrthynt na fydd y Cyngor Tref yn ymuno yn 2018/19 oherwydd y costau o ymaelodi a gwerth y buddiannau, a gofyn iddynt ystyried cyflwyno system aelodaeth dwy haen

390/17 <u>Cymunedau Dementia-Gyfeillgar - Digwyddiad 20/2/18:</u>

Rhoddodd y Cynghorydd H. Fleet adroddiad byr am ddigwyddiad Cymunedau Dementia-Gyfeillgar y bu'n bresennol ynddo ar 20fed Chwefror 2018. Dywedodd wrth yr Aelodau iddo fod yn ddigwyddiad gwych: Cyhoeddwyd mai Llandrillo yn Rhos oedd y 9fed gymuned yng Ngogledd Cymru i weithio tuag at fod yn Gymuned Dementia-Gyfeillgar ac erbyn hyn, roedd dros 600 o Gyfeillion Dementia yng Ngogledd Cymru: cafodd y rhai oedd yn bresennol sesiwn codi ymwybyddiaeth yn rhad ac am ddim. Roedd Sue Phelps, Cadeirydd Cymdeithas Alzheimer Cymru yn bresennol.

Sefydlwyd Cynllun Cyfeirio Gyrwyr Hŷn yn Ysbyty Glan Clwyd er mwyn i yrwyr hŷn cael rhywun i eistedd gyda hwy wrth iddynt yrru ac iddynt gael adborth defnyddiol dros 'paned o de. Dangoswyd Cerdyn Cadw'n Ddiogel Heddlu Gogledd Cymru. Gellir defnyddio hwn gan rywun gyda Dementia i gael eraill i'w cynorthwyo. Roedd yn cynnwys gwybodaeth am yr unigolyn yn cynnwys cyfeiriadau blaenorol, a byddai'r wybodaeth yma yn egluro pam fod yr unigolyn yn y lleoliad yna. Trafodwyd menter y 'Waled Oren' sy'n dynodi unigolion bregus. Soniodd y Cynghorydd B. Barton bod Bysus Arriva yn gweithredu hwn, fel bod gyrrwr y bws, o weld y tocyn mantais a'r Waled Oren, yn gwybod bod gan y perchennog anabledd.

Yna trafodwyd a ddylid symud ymlaen i gynnwys hwn fel eitem agenda er mwyn annog a hybu'r materion a'r syniadau a godwyd gan y Cynghorydd H. Fleet yn ei hadroddiad.

Penderfynwyd gofyn i'r Cynghorydd P. Richards cyflwyno cynnig ysgrifenedig bod y Cyngor yn symud ymlaen gyda'r syniadau a drafodwyd.

391/17 <u>BID Colwyn:</u>

Cyflwynodd y Clerc copi o'r daflen newyddion diweddar er gwybodaeth.

Penderfynwyd derbyn a nodi taflen newyddion BID Colwyn.

392/17 <u>Lwfansau Ward:</u>

Cyflwynodd y Clerc ffurflenni yn cynnig prosiect gan y Cynghorwyr N. Bastow, G. Baker, H. Fleet / C. Brockley ag A. Kealey.

Penderfynwyd rhoi awdurdod am y taliadau am y prosiectau a gyflwynwyd allan o gyllideb Lwfans Ward Aelodau.

393/17 <u>Grantiau:</u>

a) Cyflwynodd y Clerc llythyr a chais hwyr am gyllid gan Gymdeithas Masnachwyr Llandrillo yn Rhos (ROSTA)

Penderfynwyd dyfarnu £800 i'r ymgeisydd allan o'r hyn sy'n weddill o gyllideb grantiau am ddigwyddiadau, a dweud y dylid gwneud cais ar wahân ar gyfer digwyddiad y Nadolig (allan o'r gronfa a grëwyd ar gyfer digwyddiadau'r Nadolig).

b) Grantiau Bach:

Cyflwynodd y Clerc y ceisiadau am grantiau bach a dderbyniwyd yn chwarter 4, 2017/18 i'w hystyried. Gwelir manylion amdanynt yn Atodiad 'B' sydd gyda hwn.

Penderfynwyd dyfarnu grantiau i'r ymgeiswyr fel y manylir arnynt yn yr Atodiad sydd gyda hwn.

Yna gofynnodd y Clerc i'r Aelodau ystyried gwneud cyfraniadau i Elusennau Llandrillo yn Rhos a Chronfa Ymddiriedolaeth Syr John Henry Morris Jones allan o gyllideb y grantiau bach na wariwyd yn 2017 /18 fel y gwnaed yn y blynyddoedd blaenorol.

Penderfynwyd argymell cyfrannu £1,178 i Gronfa Ymddiriedolaeth Syr John Henry Morris Jones allan o gyllideb y grantiau bach na wariwyd, a bod gweddill y gyllideb (£500) yn cael ei roi i Elusennau Llandrillo yn Rhos (£300 i Elusen y Tlodion a £200 i'r Elusen Addysg).

c) Gohebiaeth am Grantiau Eraill:

i. Siop Cyngor ar Fudd-daliadau:

Cyflwynodd y Clerc llythyr i'w ystyried oddi wrth y Siop Cyngor ar Fudd-daliadau yn gofyn i'r Cyngor Tref ystyried dileu'r ffi o £10 yr wythnos am gael defnyddio'r ystafell.

Penderfynwyd rhoi awdurdod i'r Clerc wrthod y cais hwn ar sail bod y grant mawr a ddyfarnwyd i'r Siop Cyngor ar Fudd-daliadau yn cynnwys cyfraniad tuag at dalu'r costau o gael defnyddio'r ystafell yn Neuadd y Dref.

ii Clwb Criced Bae Colwyn:

Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, llythyr oddi wrth Glwb Criced Bae Colwyn. Fe nodwyd bod gwaith yn mynd ymlaen i ailwampio'r Pafiliwn Lletygarwch i roi fwy o le i gefnogwyr ar adegau pan fo digwyddiadau pwysig.

Penderfynwyd derbyn y llythyr oddi wrth Glwb Criced Bae Colwyn a'i nodi.

iii) Llythyrau o Ddiolch:

Fe nodwyd y derbyniwyd llythyrau o ddiolch / adroddiadau gan y canlynol a dderbyniodd grantiau:

(i) Gwasanaeth Ieuenctid Conwy (Grant Ieuenctid)
(ii) Gŵyl Bwrlesg a Chabare Gogledd Cymru
iii) Cymdeithas Masnachwyr Llandrillo yn Rhos (ROSTA) - Ffair Nadolig.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.40 p.m.

.....Cadeirydd

MINUTES OF A MEETING OF THE POLICY AND FINANCE COMMITTEE OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD IN THE COMMITTEE ROOM, TOWN HALL, RHIW ROAD, COLWYN BAY AT 5.00 P.M. ON WEDNESDAY 28TH MARCH 2018

PRESENT: The Mayor, Cllr J Pearson (Acting Chairman)
Cllrs: H Fleet, C Hughes, A Kealey, A Khan, T Pearson, M Pickard, P Richards

OFFICERS: Mrs T Earley, Town Clerk
Miss L Austin, Administrative Assistant

IN ATTENDANCE: Cllr Bob Barton

377/17 Appointment of Chairman:

Resolved, in the absence of the Chairman, Cllr H Meredith, to appoint the Mayor, Cllr J Pearson, as Chairman of the Committee for this, the last meeting of the current Municipal Year.

Cllr Bob Barton was welcomed to the meeting, as an observer, and he requested permission from the Chairman to speak on agenda items 5(b)(ii) and 7(c).

378/17 Apologies for Absence:

Apologies for absence were received from Cllrs H Meredith (Chairman), A Mason, M Jones and K Swindon.

379/17 Declarations of Interest:

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. The following interests were declared:

- Cllr J Pearson, non-prejudicial interest in item 17(b) – small grants application from Llandudno Community Radio.
- Cllr A Kealey, non-prejudicial interest in item 16(d) – Ward Allowance proposal for Old Colwyn Football Club

380/17 Minutes:

Resolved to approve and sign as a correct record the Minutes of the last meeting held on 14th February 2018.

381/17 Matters Arising from the Minutes:

a. Min. 329/17(b) – General Data Protection Regulations (GDPR):

The Clerk advised members that it would not be lawful to appoint a member of the Council as its Data Protection Officer and she was currently sourcing quotes from alternative providers, which will be brought to the next meeting for consideration, along with a draft data protection policy and initial audit findings.

Resolved to note that the Clerk will bring quotations, draft policy and initial

findings to the May meeting.

b. IRPW and Members' Allowances:

i. The Clerk submitted, for information, a copy of the letter sent out regarding Members Allowances, and stated that to date, there had been 4 claims, 18 foregoes (several verbally, with forms to follow) and 1 response awaited. As the Town Council's existing HMRC payroll software had the capacity to deal with the number who wished to claim the Members Allowance, there was no need to consider other payroll options for the current financial year. This is on the presumption that allowances will be paid at the end of each Municipal year, each April.

Resolved to note the responses received and to authorise the Clerk to use the current Town Council payroll system to make the payments due for the 2017/18 municipal year.

ii. The Clerk submitted, for consideration, the final IRPW report for 2018'19. Members were asked to note the determinations 44-53 and consider the payment(s) for senior roles (determination 46) and for the Mayor and Deputy Mayor (determinations 52 & 53).

A discussion ensued about the recommendations set out in the IRPW report, in relation to an annual payment of £500 to the Chairs of the Policy & Finance and General Purpose and Planning Committees, in recognition of their specific responsibilities.

Resolved to recommend determinations 44-53 for adoption, to include an annual payment of £500 to the Chairs of both the Policy & Finance and General Purpose & Planning Committees, to fulfil the requirements of determination 46.

- Cllr T Pearson arrived at this juncture.

A further discussion then ensued about Determinations 52 and 53 and the level of honorarium payments to be made to the Mayor and Deputy Mayor. Due to the frequency and nature of full Council meetings, the Clerk recommended a payment of £750 for the Mayor (£500 basic allowance + £250 clothing allowance), and £500 for the Deputy Mayor (£250 basic allowance + £250 clothing allowance).

Resolved to recommend, in accordance with Determinations 52-53, that an annual payment of £750 be made to the Mayor and £500 to the Deputy Mayor.

Further resolved to recommend that the Mayors Civic Allowance be reduced to £2,000 per annum, to allow for the clothing element to be included in the Councillor Allowances and not paid from the Mayor's Civic Allowance.

- Cllr Chris Hughes arrived at this juncture

382/17 <u>Finance</u>:

a. ***Resolved to authorise payments made on behalf of the Council for the period 1/2/2018 to 16/3/2018, as detailed in Schedule 'A' attached.***

b. ***Resolved to receive, note and authorise the Clerk and Chairman to check and sign the bank reconciliations, as at 28/2/2018.***

383/17 <u>Welsh Government / National Assembly:</u>

The Clerk submitted the following correspondence for consideration:

a. Written statement – Tax Policy Work Plan 2018.

Resolved to receive and note the Tax Policy Work Plan 2018.

b. Strengthening Local Government: Delivering for People – green paper consultation.

Resolved to defer drafting the Town Council's response to the consultation until the next meeting, to be held on the 23rd May. Members were requested to retain/read their copy of the consultation document prior to the next meeting.

c. Draft Autism (Wales) Bill:

Cllr Bob Barton tabled a detailed written report on the Consultation Paper on the Draft Autism (Wales) Bill. He has asked if anyone disagrees with any comments to let the Clerk know by Wednesday 4th April so she can add these comments to the response.

Cllr P Richards thanked Cllr Barton for his comprehensive report.

Resolve to delegate authority to the Clerk to respond in accordance with Cllr Barton's report, after Wednesday 4th April.

d. UK Government Call for Evidence – Single Use plastic waste:

Resolved to receive and note the call for evidence.

e. Welsh Government Support for Joint Arrangements:

Resolved to delegate authority to the Clerk and Mayor to submit a bid, if sufficient interest from Mochdre and Llysfaen Community Councils is expressed in relation to working jointly on a community engagement exercise to inform a Place Plan.

384/17 Conwy County Borough Council:

The Clerk submitted the following correspondence for consideration:

a. Ysgol Swn y Don Learning Resource Classes:

The Clerk submitted a copy of the statutory consultation document.

Resolved to receive and note the consultation document.

b. Bryn Euryn Handrail Project:

The Clerk submitted a report on project completion (large grant funded).

Resolved to receive and note the report.

c. HLF Great Place funding:

The Clerk gave a brief verbal report on the IMAGINE Colwyn Bay project, which had its funding bid of £400,000 recently approved by the Heritage Lottery Fund Great Places Scheme (with match funding of £51,000 over the next 2 years from the Town Council, Colwyn BID and Conwy CBC - £17,000 each). Work will start immediately on preparing for its implementation; the first stage will be to employ a project lead officer with an Arts/Heritage background. The Clerk will report back regularly form any meetings she is invited to attend. It was noted that a press release will be published tomorrow to publicise the funding and that there is a press embargo until midnight tonight.

Resolved to receive and note the report from the Clerk.

d. Bay Life Strategic Management Board:

Cllrs P Richards and C Hughes gave a brief verbal report, confirming that Rob Dix had drafted the final version of the CBTC Investment Plan and it will be out for consultation in due course.

Resolved to invite Rob Dix to attend to present the final version to the Town Council in June.

e. Conservation funding enquiry.

The Clerk submitted, for consideration, an email enquiry from CCBC Museum Development Officer asking the Town Council to consider contributing to the conservation of a portrait.

Resolved to advise the applicant to submit a small grant application.

385/17 Wales Audit Office:

The Clerk submitted, for consideration, the national survey of town and community councils, which requires a response by the 6th April 2018.

Resolved to authorise the Clerk to respond to the national survey by 6th April.

386/17 Building Communities Trust:

Cllr P Richards gave a brief verbal report on the Building Communities Trust's recent meeting. It was noted that the ten year project is still in its consultation phase, but the group are considering organising a music festival in late September / early October.

387/17 Utility Bills:

a. The Clerk submitted, for information, correspondence from XLN advising that there has been a small increase in the monthly phone line / broadband fees.
Resolved to note the increase in monthly phone line / broadband fees.

b. The Clerk submitted, for consideration, a proposal from LSI to assist with sourcing a new gas/electricity contract (for the whole Rhiw Road site) from September 2018.

Resolved to authorise the Clerk to source energy quotes from LSI.

388/17 Theatr Colwyn Management Committee:

Cllr C Hughes, Chair of Theatr Colwyn Management Committee, suggested that Paul Sampson be invited to give a presentation to a future meeting of the Council on his curator/photography role.

Resolved to request that the Clerk invites Paul Sampson to a future meeting.

- Cllr H Fleet arrived at this juncture

389/17 One Voice Wales (OVW):

The Clerk advised members of the reasons for the previous year's resolution to not join One Voice Wales and to instead source advice from SLCC and/or the CCBC legal team, as and when required. A suggestion was made that OVW should consider offering a two-tier membership – with and without access to the legal advice/support service. The Council would benefit as a 'network' member from newsletters, sharing of best practice, training and area committee meetings, but without the expense of a costly advice service that is rarely used.

Resolved to recommend that the Clerk contacts OVW to inform them that the Town Council will not be joining in 2018/19, due to the cost of membership and relative value of benefits, and to request that a two-tier membership system be considered.

390/17 Dementia Friendly Communities Event – 20/2/18:

Cllr H Fleet gave a brief report on the Dementia Friendly Communities Event she had attended on the 20th February 2018. She informed members that it had been a

wonderful event: Rhos on Sea was announced as the 9th community in North Wales to work towards becoming a Dementia Friendly Community and there were now over 6000 Dementia Friends in North Wales; those who had attended a free awareness session. Sue Phelps, Chair of the Alzheimer's Society Cymru, had been in attendance.

There was now an Older Drivers Referral Scheme at Ysbyty Glan Clwyd for older drivers to have someone sit with them whilst they drove and then receive useful feedback over a cup of tea. North Wales Police also demonstrated their Keep Safe card, which someone with Dementia could use to help others to help them. It contained information on the person, including previous addresses, which could explain why they were in that location. The 'Orange Wallet' initiative was discussed, which identified a vulnerable person. Cllr B Barton mentioned this had been implemented on Arriva Buses; so that a driver shown a bus pass within an orange wallet would know that that citizen had a disability.

A discussion then ensued on whether this should be taken forward as an agenda item, to encourage and promote the issues and ideas raised by Cllr H Fleet in her report.

Resolved that Cllr P Richards puts forward a written proposal on taking forward the ideas discussed, as a Council.

391/17 Colwyn BID:

The Clerk submitted, for information, a copy of the recent newsletter.

Resolved to receive and note the Colwyn BID newsletter.

392/17 Ward Allowances:

The Clerk submitted, for consideration, project proposal forms from Cllrs N Bastow, G Baker, H Fleet/C Brockley and A Kealey.

Resolved to authorise payments for the projects submitted from the Members Ward Allowance budget.

393/17 Grants:

a. Events Grants:

The Clerk submitted, for consideration, a covering letter and late application for funding from ROSTA.

Resolved to award the applicant £800 from the remaining events grant budget and to advise that they apply for funding separately for their Christmas event (from the budget set aside for Christmas event(s)).

b. Small Grants:

The Clerk submitted, for consideration, the small grant applications received for

quarter 4 in 2017/18, as detailed in Schedule 'B' attached.

Resolved to award grants to applicants, as detailed in the schedule attached.

The Clerk then asked members to consider, as in previous years, making donations to the Llandrillo yn Rhos Charities and the Sir John Henry Morris Jones Trust Fund from the unspent small grants budgets for 2017/18.

Resolved to recommend that a donation of £1,778 be made to the Sir John Henry Morris Jones Trust Fund from the unspent small grants budget and that the remainder of the budget (£500) be donated to the Llandrillo yn Rhos Charities (£300 to the Poor Charities and £200 to the Educational Charity).

c. Other Grants Correspondence:

i. Benefit Advice Shop:

The Clerk submitted, for consideration, a letter from the Benefits Advice Shop asking the Town Council to consider waiving the £10 per week room fees.

Resolved to authorise the Clerk to decline this request, on the basis the large grant awarded to the Benefit Advice Shop included a payment towards the cost of room hire at the Town Hall.

ii. Colwyn Bay Cricket Club:

The Clerk submitted, for information, a letter from Colwyn Bay Cricket Club. It was noted that they are refurbishing their Tea Pavilion to provide an inside space for supporters at major events.

Resolved to receive and note the letter from Colwyn Bay Cricket Club.

iii. Letters of Thanks:

It was noted that letters of thanks/ reports have been received from the following grant recipients:

(i) Conwy Youth Service (youth grant)
(ii) NW Burlesque & Cabaret Festival
(iii) ROSTA – Christmas Fayre

The meeting closed at 6.40 p.m.

…….. Chairman